# Atebion a roddwyd i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 29 Hydref 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Beth yw sgôr effeithlonrwydd ynni adeilad Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd. (WAQ55032)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Tachwedd 2009***

Lleolir Tystysgrif Arddangos Ynni sy'n dangos perfformiad ynni safle Parc Cathays ym mhrif gyntedd yr adeilad. Y gyfradd weithredol yw 122. Byddai 100 yn gyfradd arferol ar gyfer adeilad o'r math hwn. Ymhlith y mesurau i wella effeithlonrwydd ynni yn safle Parc Cathays mae goleuadau a rheolaethau goleuo sy'n arbed ynni, cyfyngu'r oriau y mae'r adeiladau ar agor a gosod technolegau a chynhyrchion newydd gyda'r nod o leihau'r defnydd o ynni, fel gwresogi dŵr thermol solar. Yn fwy cyffredinol, ymhlith y manylebau ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu mae cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ynni lle bynnag y bo'n bosibl. Er enghraifft, gosod to newydd ar ein prif adeilad ym Mharc Cathays, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac sy'n cynnwys effeithlonrwydd thermol gwell yn sgîl y mesurau inswleiddio newydd.

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion (a) faint o arian a roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin fel 'grant datblygu', (b) y rheolau yng nghyswllt gwario'r grant hwn, ac (c) unrhyw asesiad y mae wedi'i wneud o ddefnyddio'r grant i dalu am sianel deledu ar y rhyngrwyd. (WAQ55031)

***Ateb heb ei ddarparu eto***